**<u>Blaen-raglen Waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad</u>**

**Y Mater:**

Nid yw'n ofyniad o dan y rheolau sefydlog i'r Pwyllgor lunio a chyhoeddi blaen-raglen waith. Fodd bynnag, gan fod y Pwyllgor bellach wedi ymdrin â'r pynciau brys a etifeddwyd ganddo, mae'n debyg y byddai'n fanteisiol i ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf.

**Gweithredu:**

Lluniwyd y rhestr isod o nifer o wahanol ffynonellau. Yn bennaf mae'n cynnwys materion a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn, a materion y mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ymdrin â hwy ymhellach. Gwahoddir y Pwyllgor i adolygu'r rhestr, i nodi a oes unrhyw faterion eraill yr hoffai eu cynnwys, ac i gytuno ar ei flaenoriaethau. Yn ôl dymuniad y Pwyllgor, bydd yr Ysgrifenyddiaeth wedyn yn llunio'r rhaglen derfynol a'i chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor.

**Gwaith sydd ar y gweill:**

Mae ychydig o faterion sydd eisoes ar y gweill, ac mae'r Ysgrifenyddiaeth yn mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Bydd y rhan fwyaf wedi'u datrys erbyn diwedd mis Ionawr.

- Y Canllawiau Diwygiedig ar Fudiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau – wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor a bydd yn cael ei osod gerbron y cyfarfod llawn i'w gymeradwyo ar XX

- Newid i Reol Sefydlog 4, Atodiad - Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gais y Pwyllgor Safonau i gael gwared ar y gofyniad sy'n ymwneud â gwerth. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu amser i'w drafod mewn cyfarfod llawn.

- Grym i benodi cadeirydd dros-dro am reswm ar wahân i'w "absenoldeb anochel" – Mae'r cyfreithwyr wedi cadarnhau y bydd yn rhaid newid Rheol Sefydlog 16. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn aros am y drafft.

**Cynnwys y rhaglen ddrafft:**

| Maes | Pwnc | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Buddiannau Anuniongyrchol - Gofynion ym mhenderfyniadau a Chanllawiau'r Cynulliad | A oes angen cadw'r darpariaethau hyn? Os oes eu hangen sut y dylid eu hegluro a'u rhoi ar waith. | Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i adolygu'r darpariaethau presennol, yn dilyn ei ymarfer ymgynghori cyffredinol ar Fuddiannau'r Aelodau. |
| Y Weithdrefn Gwynion- | A oes modd defnyddio disgresiwn yn y lle cyntaf? Oes unrhyw beth y gall y rhai sy'n ymwneud â'r broses ei wneud i rwystro achosion "dibwys" rhag cael eu cyfeirio. | Yn ystod y ddadl ar ei adroddiad blynyddol, gwnaeth y Pwyllgor ymrwymiad i edrych ar y mater hwn. |
| Rheol Sefydlog 16 | A yw'n bodloni'r gofynion? A oes unrhyw beth yr hoffai'r Pwyllgor ei newid | E.e. efallai y bydd yn rhaid gwneud newidididadau o ganlyniad i gynigion i newid y broses gwynion. |
| Swyddogaeth yr Ymgynghorydd Annibynnol | A ydyw'n gweithio'n llwyddiannus? A yw'r aelodau'n hapus â'r berthynas? A ddylem argymell sefydlu comisiynydd annibynnol, yn yr un modd â Chynulliadau/Seneddau eraill? | Dyma fater a godwyd eisoes gan y Llywydd a sawl gwaith yn y Pwyllgor. Ar 14 Mawrth bydd yr Ymgynghorydd wedi bod yn ei swydd am flwyddyn, a byddai'n synhwyrol felly i'w adolygu bryd hynny. |
| Codi Ymwybyddiaeth | Mae llawer o ganllawiau ar gael i'r Aelodau, ond mae angen codi eu hymwybyddiaeth a lefel eu dealltwriaeth. | Eto, dyma un o themâu'r ddadl ar yr adroddiad blynyddol – sy'n gysylltiedig â mater y datganiadau. |

| | | |
|---|---|---|
| Datgan Buddiannau | Mae'r Cynulliad yn gyfuniad o Senedd a llywodraeth leol, ac felly hefyd y rheolau ar ddatgan buddiannau. Mae'r canllawiau wedi cael eu symleiddio, ond mae angen hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth. | Mae'r Pwyllgor wedi nodi y bydd yn parhau i adolygu'r canllawiau ac arferion yr aelodau. Byddai'n synhwyrol i'r Pwyllgor edrych yn ffurfiol ar y mater hwn erbyn diwedd y tymor nesaf, pan fydd y canllawiau diwygiedig wedi bod ar waith ers peth amser. |
| Awdurdod y Pwyllgor a'i berthynas ag eraill | Yr angen i gadarnhau union gylch gwaith y Pwyllgor a sicrhau bod pwyllgorau a chyrff eraill yn ymwybodol o effaith canllawiau newydd neu ddiwygiedig ar y Pwyllgor. | Un enghraifft o hyn yw'r Canllawiau ar ddeunydd ysgrifennu, sydd wedi'i gyfeirio at Bwyllgor y Ty. |
| Gweithio gyda phwyllgorau eraill, a chanfod gwybodaeth | Datblygu dealltwriaeth o arferion gorau a threfniadau gwaith mewn Cynulliadau/ Seneddau eraill. | |
| Seiri Rhyddion | Mae'r mater eisoes wedi'i grybwyll wrth y Llywydd. Mae'n debygol y bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor i'w adolygu. | |
| Protocol gyda'r Heddlu | Trefniadau i drosglwyddo achosion difrifol i'r Heddlu. | Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu cysylltiadau gyda Heddlu De Cymru, a bydd yn ceisio sefydlu cysylltiadau tebyg gyda'r heddlu mewn rhannau eraill o Gymru. |

*Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau*